

2018 Rhif (Cy. )

2018 No. (W. )

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A483  
(Cyffordd 3 (Cylchfan Croes-foel) i  
Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd  
Rhuthun), Bwrdeistref Sirol  
Wrecsam) (Gwaharddiadau Traffig  
Dros Dro) 2018

The A483 Trunk Road (Junction 3  
(Croesfoel Roundabout) to  
Junction 4 (Ruthin Road  
Interchange), Wrexham County  
Borough) (Temporary Traffic  
Prohibitions) Order 2018

*Gwnaed* 9 Chwefror 2018

*Made* 9 February 2018

*Yn dod i rym* 17 Chwefror 2018

*Coming into force* 17 February 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, being the traffic authority for the A483 Swansea to Manchester Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 3 (Cylchfan Croes-foel) i Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun), Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 17 Chwefror 2018.

1. The title of the Order is The A483 Trunk Road (Junction 3 (Croesfoel Roundabout) to Junction 4 (Ruthin Road Interchange), Wrexham County Borough) (Temporary Traffic Prohibitions) Order 2018 and it comes into force on 17 February 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 17 Chwefror 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw dau ddarn o gefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion fel a ganlyn:

- i. Y darn o’r brif gerbyttffordd tua’r gogledd sy’n ymestyn o ddechrau’r ffordd ymadael tua’r gogledd wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Croes-foel) hyd at ddiwedd y ffordd ymuno tua’r gogledd wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun);
- ii. Y darn o’r brif gerbyttffordd tua’r de sy’n ymestyn o ddechrau’r ffordd ymadael tua’r de wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun) hyd at ddiwedd y ffordd ymuno tua’r de wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Croes-foel).

### **Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal na pheri i unrhyw feic o’r fath gael ei reidio ar y darnau o’r gefnffordd.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd.

### **Cymhwys**

**6.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### **Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

9 Chwefror 2018

*Nina Ley*

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means two lengths of the A483 Swansea to Manchester trunk road as follows:

- i. The length of the main northbound carriageway that extends from the start of the northbound exit slip road at Junction 3 (Croesfoel Interchange) to the end of the northbound entry slip at Junction 4 (Ruthin Road Interchange);
- ii. The length of the main southbound carriageway that extends from the start of the southbound exit slip road at Junction 4 (Ruthin Road Interchange) to the end of the southbound entry slip at Junction 3 (Croesfoel Interchange).

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 20:00 hours on 17 February 2018 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

### **Prohibitions**

**3.** No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed in the lengths of the trunk road.

**4.** No person may, during the works period, ride or cause to be ridden any pedal cycle in the lengths of the trunk road.

**5.** No pedestrian may, during the works period, proceed in the lengths of the trunk road.

### **Application**

**6.** The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### **Duration of this Order**

**7.** The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

9 February 2018

*Nina Ley*

Head of Business Unit, Network Management  
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483  
(CYFFORDD 3 (CYLCHFAN CROES-FOEL) I  
GYFFORDD 4 (CYFNEWIDFA FFORDD  
RHUTHUN), BWRDEISTREF SIROL  
WRECSAM) (GWAHARDDIADAU TRAFFIG  
DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 3 (Cylchfan Croes-foel) a Chyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun), Wrecsam.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro a ganlyn, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 20:00 o'r gloch ar 17 Chwefror 2018 ac yn dod i ben am 06:00 o'r gloch ar 18 Chwefror 2018, neu pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd, beiciwr a cherddwr, ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar:

- i. Y darn o brif gerbyttfordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o ddechrau'r ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Croes-foel) hyd at ddiwedd y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun); a
- ii. Y darn o brif gerbyttfordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o ddechrau'r ffordd ymadael tua'r de wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun) hyd at ddiwedd y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Croes-foel).

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd o Gyffordd 3 fydd mynd ar yr A5152 tua'r dwyrain ac yna tua'r gogledd ac yna cymryd yr A525 tua'r gorllewin i ailymuno â'r A483 wrth Gyffordd 4. Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de o Gyffordd 4 fydd mynd i'r gwrthwyneb.

Caiff cerbydau dros 3.25 metr o led eu gwahardd rhag defnyddio'r llwybrau eraill a chânt eu parcio mewn cilfannau cyn cyrraedd y safle gwaith er mwyn i'r cerbydau sy'n rheoli traffig eu hebrwng drwy'r safle.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

**THE A483 TRUNK ROAD (JUNCTION 3  
(CROESFOEL ROUNDABOUT) TO JUNCTION  
4 (RUTHIN ROAD INTERCHANGE),  
WREXHAM COUNTY BOROUGH)  
(TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS)  
ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road between Junction 3 (Croesfoel Roundabout) and Junction 4 (Ruthin Road Interchange), Wrexham.

It is expected that the following temporary prohibitions, which will be signed accordingly, will come into force at 20:00 hours on 17 February 2018 and end at 06:00 hours on 18 February 2018 or when the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding along:

- i. The length of the main northbound carriageway of the trunk road that extends from the start of the northbound exit slip road at Junction 3 (Croesfoel Interchange) to the end of the northbound entry slip road at Junction 4 (Ruthin Road Interchange); and
- ii. The length of the main southbound carriageway of the trunk road that extends from the start of the southbound exit slip road at Junction 4 (Ruthin Road Interchange) to the end of the southbound entry slip road at Junction 3 (Croesfoel Interchange);

The alternative route for northbound traffic from Junction 3 will be via the eastbound then northbound A5152 and then take the westbound A525 to re-join the A483 at Junction 4. The alternative route for southbound traffic from Junction 4 will be vice versa.

Vehicles over 3.25 metres wide will be prohibited from using the alternative routes and will be parked up within laybys prior to the works for traffic management to escort them through the works.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Dros Dro/ 2018).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government